# DEDDF TRETH TRAFODIADAU TIR A GWRTHWEITHIO OSGOI TRETHI DATGANOLEDIG (CYMRU) 2017

---

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### Rhan 8 – Dehongli a Darpariaethau Terfynol

### *Atodlen 14 – Rhyddhad ar gyfer caffaeliadau penodol o anheddau*

### Rhan 3 - Rhyddhad ar gyfer trafodiadau yr ymrwymir iddynt gan bersonau sy’n arfer hawliau ar y cyd

341. Mae paragraff 10 yn darparu rhyddhad rhag treth trafodiadau tir ar gyfer trafodiadau yr ymrwymir iddynt gan bersonau sy’n arfer hawliau ar y cyd, sef pan fo tenantiaid mewn fflatiau yn arfer hawliau statudol penodol i gaffael ystad neu fuddiant (megis y rhydd-ddaliad) yn y fangre sy’n cynnwys eu fflatiau. Mae’r hawliau statudol yn ymwneud â’r hawl i gael y cynnig cyntaf o dan Ran 1 o Ddeddf Landlord a Thenant 1987; a’r hawl i ryddfreiniad ar y cyd o dan Bennod 1 o Ran 1 o Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993. Ymgymerir â’r caffaeliadau y cyfeirir atynt yn y paragraff hwn gan enwebeion neu apwynteion ar ran y tenantiaid sy’n cyfranogi. Darperir y rhyddhad fel mai swm y dreth sy’n daladwy fydd y swm cyfartaledig a fyddai’n ddyledus gan bob lesddeiliad sy’n cymryd rhan pe bai wedi bod yn bosibl i’r lesddeiliad hwnnw brynu ei fuddiant (cyfartaledig) yn yr ystad neu fuddiant dan sylw ar wahân i’r tenantiaid eraill.

342. Mae is-baragraff (2) yn nodi’r cyfrifiad ar gyfer pennu’r swm o dreth trafodiadau tir sydd i’w godi. Mae’r swm hwn i’w ganfod drwy rannu’r gydnabyddiaeth a roddir ar gyfer yr ystad neu’r buddiant dan sylw (er enghraifft y rhydd-ddeiliad) â nifer y fflatiau cymwys, yna cyfrifo’r swm o dreth sy’n ddyledus ar y swm hwnnw a lluosi’r canlyniad â nifer y fflatiau cymwys sydd wedi eu cynnwys yn y fangre.

343. “Fflat gymwys” yw fflat a ddelir gan denant sy’n cyfranogi o ran arfer yr hawl ar y cyd.